

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12fed Tachwedd, 2019 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Alan Henson, (Cadeirydd), Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Lyn Williams, Glyn Davies, Daniel Evans, Hywel Ifans

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Owen Llywelyn, Haf Hughes, Harry Williams

2. PERSONOL Dim materion personol

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Cynllunio A190787 Feinog Uchaf: Y Cyng. Hywel Ifans, Johnny Davies

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Hydref, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Johnny Davies.

5. MATERION YN CODI

12.iii. Cywiriwyd pwynt 12.iii Nid dŵr oedd y broblem a godwyd gan Y Cyng. Glyn Davies am Ffynnonoer, ond twll yn yr hewl **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd i dynnu sylw at y mater.

Gan i'r Clerc gŵyno am y dŵr ar yr hewl yn Ffynnonoer, cafwyd ymateb gan Adran y Priffyrdd I gadarnhau bod y gwaith wedi dechrau i wella'r broblem ond y gobaith yw allu cwblhau y gwaith adferol angenrheidiol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, os bydd cyllid ar gael i wneud hynny.

12. iii *Cofnodion Medi 10fed* - Clawdd Bro Silin Derbyniwyd llythyr wrth Tai Ceredigion yn ymddiheuro am yr oedi cyn torri'r clawdd. Esboniwyd mai problem gyda'r contractwr oedd y rheswm am hyn. Cadarnhawyd bod y clawdd weid ei dorri erbyn hyn.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am y digwyddiadau amrywiol bu'n mynychu yn ystod y mis gan gynnwys cystadlu yn Eisteddfod y Papurau Bro yn Felinfach. Bu hefyd yng nghyfarfod penodi Pennaeth newydd Ysgol Dihewyd, yn ogystal â chyfarfod yn trafod treth ail-gartrefi. Ac yn dilyn ymarfer gofal cwsmer diweddar braf oedd nodi bod y Cyngor Sir yn derbyn mwy o ganmoliaeth na chŵynion am ei waith.

7. ADRODDIAD PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS CYMRU 9/10/19

Yn absenoldeb y Cyng. Harry Williams, ni chafwyd adroddiad cyflawn ond nododd Y Cyng. Lynford Thomas siom unwaith eto yn y nifer a oedd yn bresennol.

8. CYLLID

- i. Tâl y Clerc am fis Hydref £153.26 HMRC £38.40
- ii. Ad-daliad inc i'r printer i'r Clerc £44.99
- iii. Dau dorch Sul y Cofio £15 yr un- siec o £30 i Apêl y Pabi Coch.
- iv. Siec o £40 i ail-gofrestru â'r ICO
- v. Praesept £3316.66 wedi mynd mewn i'r cyfri' banc ar 29 Hydref.
- vi. **Adroddiad.** Yn y banc ar hyn o bryd £9055. Amcangyfrifir gwariant o £4,483 hyd ddiwedd y flwyddyn sy'n gadael swm o £4572. Wrth nodi'r swm, rhannwyd adroddiad a baratowyd gan Euros Lewis yn dilyn y sesiwn ymgynghori a gynhaliwyd ym mis Hydref yn crynhoi y drafodaethau am anghenion y gymuned er mwyn rhoi swm o hyd at £2,000 o'r praesept ar waith er budd y gymuned Penderfynwyd cyflwyno syniadau yn y cyfarfod nesa' a gwahodd Euros unwaith eto i arwain y drafodaeth.

Yn sgil y drafodaeth hon, nododd y Cyng. Gerwyn Owen nad oedd gan bentre' Dihewyd arwyddion glas yn nodi enw'r pentref. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd i ofyn am amcanbris.

9. YMGYNGHORIAD MANNAU PLEIDLEISIO

Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** derbyn yr argymhellion a nad oedd angen gwneud sylw pellach.

10. CYNLLUNIO

- I. **A190787. Tŷ fforddiadwy Feinog Uchaf, Dihewyd.** Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** yn unfrydol cefnogi'r cais. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen.
- II. **A190727 Waun Uchaf Cribyn.** Cadarnhawyd na dderbyniwyd unrhyw wrthywnebiad.

11, GOHEBIAETH

- a) Derbyniwyd gwybodaeth am ddiwrnod i ofalwyr i'w gynnal yn Llanbed ar yr 21ain o Dachwedd. Cadarnhaodd Y Cyng. Lynford Thomas a Hywel Glyn y byddent yn mynychu'r digwyddiad.
- b) Adroddiad ar Adran 6 Deddf Amgylcheddol Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru bod yn rhaid i bob Cyngor Tref a Chymuned paratoi adroddiad ar yr hyn maent yn eu wneud i hybu bioamrywiaeth yn eu cymunedau a hynny erbyn diwedd y flwyddyn. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** cysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn am ragor o arweiniad ar sut orau i gyflawni'r gofyniad hwn.

12. UNRHYW FATER ARALL

- I. Cododd Y Cyng. Lyn Williams fater ynglŷn â chlawdd waelod Bro Silin sydd angen ei thorri. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- II. Cododd Y Cyng. Johnny Davies fater am broblem dŵr rhwng Gwelfryn a Hampton i gyfeiriad Ciliau Aeron. Er nad cyfrifoldeb y Cyngor hwn yw'r darn yma o'r hewl, codwyd y pryder yn sgil y ffaith mai hon yw'r ffordd y mae trigolion Dihewyd yn ei defnyddio i gyrraedd Aberaeron a phentrefi cyfagos. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- III. Derbyniwyd cais trwy'r Cyng. Hywel Glyn ar i'r Cyngor gwneud ymholiadau parthed diffyg band-eang ym mythynnod gwyliau Bwlch-y-Person, rhwng Dihewyd a Felinfach, sydd yn niweidiol i dwristiaeth yn yr ardal yn ogystal â'r effaith ehangach ar fusnesau eraill yn Felinfach. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at BT i godi'r mater.

13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 10fed Rhagfyr, 2019 yn Neuadd Dihewyd, am 7.30pm.